**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

Pwyllgor Cyllid / Finance Committee
FIN(6)-01-25 PTN 3

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a
Materion Gwledig (dros e-bost)

16 Rhagfyr 2024

Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) – gwaith craffu yng Nghyfnod 1

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr 2024, lle gwnaethoch gais i ymuno â sesiynau craffu'r Pwyllgor Cyllid ar Fil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) yng Nghyfnod 1.

Gwnaethom drafod eich cais yn ein cyfarfod ar 12 Rhagfyr, a chytunodd y Pwyllgor i wahodd aelodau o'ch Pwyllgor chi i gymryd rhan yn ein gwaith craffu yng Nghyfnod 1. Mae'r gwahoddiad hwn yn cael ei estyn o dan Reol Sefydlog 17.49, lle caiff Aelodau nad ydynt yn aelodau o bwyllgor, gyda chaniatâd y Cadeirydd, gymryd rhan mewn cyfarfod pwyllgor, ond na chânt bleidleisio. Gwnaethom gytuno i wahodd tri aelod o'ch Pwyllgor chi i'n sesiynau ni, a hynny er mwyn cynnal cydbwysedd rhwng y pleidiau.

Mae'r amserlen sydd gennym yn weddill wedi'i nodi yn yr Atodiad. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i ni erbyn dydd Llun 13 Ionawr pa rai o'ch Aelodau sy'n bwriadu ymuno â ni, naill ai ar gyfer rhan o'n gwaith craffu yng Nghyfnod 1, neu'r cwbl. Byddwn yn sicrhau eu bod yn cael yr holl wybodaeth berthnasol cyn cyfarfodydd y Pwyllgor.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Atodiad – Pwyllgor Cyllid – Amserlen Cyfnod 1 – Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)

| | |
|---|---|
| Dydd Iau 23 Ionawr 2025 | Sesiwn gyhoeddus<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 2 (13.00-14.00)<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 3 (14.10-15.10)<br>Sesiwn breifat<br>Trafod y dystiolaeth (15.10-15.30) |
| Dydd Iau 30 Ionawr 2025 | Sesiwn gyhoeddus<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 4 (10.00-11.00)<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 5 (11.10-12.10)<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 6 (13.00-14.00)<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 7 (14.10-15.10)<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 8 (15.20-16.20)<br>Sesiwn breifat<br>Trafod y dystiolaeth (16.20-16.30) |
| Dydd Mercher 5 Chwefror 2025 | Sesiwn gyhoeddus<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 9 (9.30-10.30)<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 10 (9.40-11.40)<br>Sesiwn breifat<br>Trafod y dystiolaeth (11.40-12.00) |
| Dydd Mercher 12 Chwefror 2025 | Sesiwn gyhoeddus<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 11: Yr Aelod sy'n gyfrifol (09.30-11.30)<br>Sesiwn breifat<br>Materion allweddol (11.30-12.30) |
| Dydd Mercher 12 Mawrth 2025 | Sesiwn breifat<br>Trafod yr adroddiad drafft (AM) |
| Dydd Gwener 21 Mawrth 2025 | Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1 |